# Strategaeth Datblygu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe 2017-2020

## Aelodaeth Grŵp Gweithredu Lleol

## ~ Mynegi Diddordeb ~

Mae Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Abertawe (GGLIP) yn chwilio am aelodau newydd i roi Strategaeth Datblygu Lleol newydd Pysgodfeydd Bae Abertawe ar waith ar gyfer 2014-2020.

Bydd dyletswyddau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cynnwys:

- Datblygu dealltwriaeth fanwl o Strategaeth Datblygu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe 2017-2020 a helpu i'w chadw'n gyfredol ac yn berthnasol.
- Cymryd ymagwedd ragweithiol tuag at glustnodi cyllid ar gyfer blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y strategaeth.
- Gweithio gydag aelodau o Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe i bennu'r cynllun gwaith lleol a pha brosiectau neu weithgareddau i fuddsoddi ynddynt.
- Gallu mynd i gyfarfodydd rheolaidd i gefnogi'r gweithgareddau uchod.

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion sy'n dymuno cynrychioli'r sector pysgota a dyframaethu y mae'n bosib yr hoffent fod yn rhan o'r GGLIP a dod â'u harbenigedd mewn pwnc penodol i'r grŵp. Mae ardaloedd penodol y mae angen cynrychiolaeth ohonynt yn cynnwys Porth Tywyn i Borthcawl.

Bydd Panel Tasg a Gorffen a ffurfir o aelodaeth bresennol y GGLIP yn asesu'r Mynegiannau o Ddiddordeb yn erbyn Strategaeth Datblygu Lleol newydd Pysgodfeydd Bae Abertawe ac yn llunio rhestr fer o aelodau newydd y Grŵp Gweithredu Lleol. Pan ymddengys fod sector neu ddiddordeb penodol yn cael gorgynrychiolaeth, bydd y Panel Tasg a Gorffen yn pleidleisio. Adolygir aelodaeth y Grŵp Gweithredu Lleol yn flynyddol yn unol â'r adolygiad blynyddol o Strategaeth Datblygu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe.

Mae amcanion a themâu presennol y strategaeth wedi'u cynnwys drosodd, er gwybodaeth.

**Os hoffech gyflwyno cais i ymuno â Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe, cwblhewch y cwestiynau isod a dilyn y cyfarwyddiadau dychwelyd ar ddiwedd y ffurflen.**

**STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL PYSGODFEYDD BAE ABERTAWE 2017-2020**

**THEMÂU AC AMCANION**

| AMCAN SDLlP: | CAMAU GWEITHREDU POSIBL: |
|---|---|
| **THEMA 1: YCHWANEGU GWERTH, CREU SWYDDI, DENU POBL IFANC A HYRWYDDO ARLOESEDD AR BOB CAM O GADWYN GYFLENWI CYNNYRCH PYSGODFEYDD A DYFRAMAETHU** | |
| **Amcan 1: Gwella cysylltiadau gyda chynhyrchwyr bwyd lleol eraill a chynhyrchwyr eraill** | • darparu gwybodaeth am fwyd môr lleol, amrywiaeth a thymoroldeb drwy amrywiaeth o gyfryngau rhad<br>• annog digwyddiadau rhwydweithio anffurfiol ar gyfer y gadwyn gyflenwi rhwng pysgotwyr a chogyddion i greu deialog a nodi cyfleoedd ar gyfer gwerthiannau uniongyrchol |
| **Amcan 2: Cyflawni cysylltiadau gwell ag ysgolion a cholegau i annog pobl ifanc i helpu i ddatblygu'r sector** | • annog busnesau ar draws y gadwyn gyflenwi "rhwyd i'r plât" i gynnwys a chefnogi gweithgareddau i ddarparu ymweliadau â'r gadwyn gyflenwi i ysgolion lleol<br>• dysgu am hanes y diwydiant cocos drwy ymweliadau neu ffilm fer<br>• annog a lledaenu cysylltiadau rhwng cogyddion bwyd môr ac ysgolion i ddatblygu ryseitiau a darparu arddangosiadau "mewn ysgolion" i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o fwyd môr lleol<br>• technolegydd bwyd a datblygu cynnyrch i golegau/ysgolion ddefnyddio pysgod anghyffredin neu rad |
| **Amcan 3: Cefnogi cyflwyniad prosiectau isadeiledd bach i annog twf cynaliadwy yn y diwydiant** | • uned iâ fach<br>• storfa oer ar ochr y cei<br>• camlathau glanio<br>• cloriannau<br>• biniau iâ ar gyfer llongau |
| **Amcan 4: Creu cyfleoedd i farchnata a hyrwyddo'r diwydiant lleol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi.** | • cynnal ymweliad astudio â physgodfa cyllyll môr<br>• sefydlu gweithgor gyda rheolyddion, gwyddonwyr, eNGO a physgotwyr i ddatblygu model sy'n ecolegol |

| | |
|---|---|
| | gynaliadwy ar gyfer pysgodfa |
| **Amcan 5: Darparu cefnogaeth i roi cynnig ar brosesau newydd neu ychwanegu gwerth at gynnyrch i helpu cwmnïau bach yn y diwydiant pysgota i dyfu** | • Archwilio technegau pecynnu i estyn cyfnod silff cynnyrch; mae prosesu pwysedd uchel yn enghraifft o waith blaenorol a wnaed gan gyrff bwyd môr rhanbarthol i helpu i 'ychwanegu gwerth' i gynnyrch bwyd môr. |
| **THEMA 2: CEFNOGI AMRYWIAETH MEWN PYSGODFEYDD MASNACHOL A'R TU ALLAN IDDYNT, DYSGU GYDOL OES A CHREU SWYDDI MEWN PYSGODFEYDD AC ARDALOEDD DYFRAMAETHU** | |
| **Amcan 6: Cefnogaeth i fusnesau nodi ac amrywiaethu cyfleoedd a dysgu sgiliau newydd yn y sector a'r tu allan iddo** | • ystyried cynllun digomisiynu<br>• cynorthwyo'r rheiny sy'n dymuno trawsnewid llongau er mwyn amrywiaethu'n 'dwristiaeth bysgod'; cychod gwaith<br>• siarter longau<br>• cefnogaeth hyfforddiant a marchnata |
| **Amcan 7: Darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sector twristiaeth sy'n gysylltiedig â physgodfeydd lleol, gan gynnwys 'twristiaeth bysgod', eco-dwristiaeth a chyfleusterau i dwristiaid.** | • strategaeth i ddatblygu'r sector a marchnata gwell<br>• gwefannau/ap/cyfryngau cymdeithasol<br>• canllawiau/posteri mewn siopau offer pysgota<br>• arwyddion mewn mannau poblogaidd ar gyfer mynediad hawdd i leoliadau pysgota |
| **THEMA 3: GWELLA ASEDAU AMGYLCHEDDOL PYSGODFEYDD AC ARDALOEDD DYFRAMAETHU A GWNEUD Y MWYAF OHONYNT, GAN GYNNWYS GWEITHREODEDD I LINIARU EFFAITH NEWID YN YR HINSAWDD** | |
| **Amcan 8: Nodi a datblygu ffynonellau incwm eraill ar gyfer y diwydiant pysgota, megis ynni adnewyddadwy.** | • cefnogaeth un i un i helpu pysgotwyr lleol i nodi rhwystrau i ffynonellau incwm eraill a gweithio i oresgyn y rhwystrau hyn<br>• cefnogaeth i bysgotwyr sydd am ennill y cymhwyster meistr iotiau RYA alltraeth (a gefnogir yn fasnachol) gan y byddai hyn yn arwain at gyfleoedd sylweddol yn y sector cefnogi ffermydd gwynt |
| **Amcan 9: Manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd naturiol lleol** | • amaethu gwymon a datblygu'r farchnad<br>• prosiectau i gefnogi bioamrywiaeth môr a gwella stociau pysgod |

| | |
|---|---|
| | • datblygu cynllun rheoli i gefnogi pysgodfa cyllyll môr gynaliadwy |
| **Amcan 10: Datblygu agweddau treftadaeth a thwristiaeth y glannau mewn modd cynaliadwy a chytbwys.** | • hysbysfyrddau a phaneli gwybodaeth mewn porthladdoedd allweddol a safleoedd treftadaeth |
| **THEMA 4: HYRWYDDO LLES CYMDEITHASOL A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL MEWN PYSGODFEYDD AC ARDALOEDD DYFRAMAETHU, GAN GYNNWYS TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL PYSGODFEYDD, DYFRAMAETHU AC ARDALOEDD MOROL** | |
| **Amcan 11: Cefnogaeth i hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol, dyframaethu a diddordebau morol** | • gwyliau<br>• paneli gwybodaeth mewn safleoedd treftadaeth |
| **THEMA 5: ATGYFNERTHU RÖL CYMUNEDAU PYSGODFEYDD MEWN DATBLYGU LLEOL A LLYWODRAETHU ADNODDAU PYSGODFEYDD LLEOL A GWEITHGAREDDAU MOROL** | |
| **Amcan 12: Cynnwys cymunedau a chynrychiolwyr lleol ymhellach er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r diwydiant lleol** | • gŵyl bysgota GGLIP dan arweiniad arbenigwyr y diwydiant a thwristiaeth mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol |

**GRŴP GWEITHREDU LLEOL PYSGODFEYDD BAE ABERTAWE (GGLIP)**

**MYNEGIANT O DDIDDORDEB AR GYFER AELODAETH**

**1. Manylion Cyswllt**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Cyfeiriad Post ar gyfer Cysylltu:** | |
| **Rhif Ffôn:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Statws Cyflogaeth:** | |
| **Enw'r Cyflogwr (os yw'n berthnasol):** | |
| **Rhif Ffôn:** | |
| **Arbenigedd/gwybodaeth am bwnc a gynrychiolir e.e. pysgodfeydd, dyframaethu, cymunedau** | |

**2. Diddordeb mewn ymuno â'r Grŵp Gweithredu Lleol**

Rhowch wybod i ni am eich diddordeb mewn ymuno â'r datblygiad lleol yng Ngrŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe.

| |
|---|
| |

**3. Sgiliau a gwybodaeth y byddech yn eu cynnig i Grŵp Pysgodfeydd Lleol Bae Abertawe**
Dywedwch wrthym ba sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd y byddech yn eu cyfrannu i'r grŵp a sut byddai'r rhain o fudd i'r GGLlP.

| |
|---|
| |

**4. Dywedwch wrthym am unrhyw brofiad blaenorol o Arian Ewrop, Datblygu Cymunedol neu Ddatblygu Economaidd**

| |
|---|
| |

**5. Gwrthdaro buddiannau posib**
Dywedwch wrthym am unrhyw wrthdaro buddiannau rydych yn ymwybodol ohonynt a allai effeithio ar eich cyfranogiad yn y GGLlP

**6. Gallu mynd i gyfarfodydd**
(Dywedwch wrthym am unrhyw gyfyngiadau amser sydd gennych o ran mynd i gyfarfodydd rheolaidd yn y dydd neu gyda'r nos)

**Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r cyfeiriad canlynol:**

**Amanda J Jones**
**Swyddog Rhaglen Ewropeaidd ac Allanol**
**Dinas a Sir Abertawe**
**Canolfan Ddinesig**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe SA1 3SN**

**E-bost: [Amanda.Jones@swansea.gov.uk](mailto:Amanda.Jones@swansea.gov.uk)**